AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol

## Taith i Gaerllion y Rhufeiniaid



Cadw

# Stori Weledol

Canllaw gweledol yw hwn ar gyfer grwpiau addysg sydd am ymweld.

Mae’n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i bawb, gan gynnwys pobl ag anghenion arbennig.











# Symbolau yn y canllaw



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle llawn arogl cryf.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle swnllyd.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos fod y golau'n newid.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle gallwch chi gyffwrdd gwrthrychau.**


# Map o Gaerllion y Rhufeiniaid

Y ffordd fwyaf diogel i'r Amffitheatr

O'r lle parcio:
Gadewch 10-15 munud i gyrraedd y Baddonau a'r Amgueddfa.

Gadewch 0-5 munud i gyrraedd y Barics.

Gadewch 0-5 munud i gyrraedd yr Amffitheatr.



# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws

- Gall eich bws barcio gyferbyn â'r Amffitheatr.
- Mae toiledau cyhoeddus ym mhen pella'r maes parcio.
- Bydd amserlen gan arweinydd y grŵp – gwiriwch eich taith cyn dechrau arni.



# Cyrraedd

Cliciwch ar y delweddau i ddilyn y llwybr cywir.



Amffitheatr



Baddonau



Amgueddfa



Barics

# Cyrraedd yr Amffitheatr

Croeswch y ffordd yn ofalus a mynd drwy'r gât haearn.

Arwynebau: porfa gwastad, llethr porfa, mwd a llethrau anwastad.

Mae defnyddio cadair olwyn yn her, ond yn bosib gyda help ychwanegol. Mae'r llwybr diogel ar y map



# Yr Amffitheatr

Mae'r Amffitheatr yn ofod agored gwych i'w fwynhau! Dyma oedd y stadiwm, neu'r sinema Rhufeinig.

Mae'n ofod awyr agored – gwisgwch ddillad addas i bob tywydd.

Bydd arweinydd y grŵp yn arwain y sesiwn hon. Does dim staff yn yr Amffitheatr.



# Yr Amffitheatr

Rhaid i staff ysgol wylio disgyblion yn ofalus drwy'r amser, i osgoi damweiniau.

Dim dringo.

Mae'n syniad da i grwpiau fynd i'r brif arena ac aros yno, nid crwydro'r lefelau uwch.

Mae canllawiau Iechyd a Diogelwch ar wefan Amgueddfa Cymru.



# Cyrraedd y Barics

Dilynwch y llwybr troed hir nes cyrraedd y Barics ar y dde.

Arwynebau: Llwybrau tarmac, llethrau porfa a grisiau carreg.

Mae defnyddio cadair olwyn yn her, ond yn bosib gyda help ychwanegol.



# Y Barics

Dyma weddillion Barics Rhufeinig. Byddai 6,000 o filwyr yn byw ac yn cysgu yma.

Mae'n ofod awyr agored – gwisgwch ddillad addas i bob tywydd.

Mae defnyddio cadair olwyn yn her, ond yn bosib gyda help ychwanegol. Mae arwynebau llithrig a waliau isel yma.




# Y Barics

Gallwch chi weld ail-gread o ystafell fyw Llengfilwr wrth ymweld â'r Amgueddfa.

360°

Gallwch chi grwydro Ystafell y Barics ar-lein cyn ymweld hefyd.



# Cyrraedd yr Amgueddfa

Dilynwch y pafin am y pentref.

Mae'r pafinau'n gul a'r ffyrdd yn aml yn brysur – cymerwch ofal.

Arwynebau: Pafinau tarmac.

Mae'r llwybr yn addas i gadeiriau olwyn.



# Cyrraedd yr Amgueddfa

Dilynwch y pafin am y pentref. Mae'r pafinau'n gul a'r ffyrdd yn aml yn brysur a swnllyd. Dilynwch Lwybr B a gwneud yn siŵr fod rhywun yn goruchwylio pob grŵp.

Arwynebau: Pafinau slabiau carreg cul, croesfannau, cobls, ceir wedi parcio.

Llwybr A sydd orau i gadeiriau olwyn, ond gall croesi'r ffordd ac arwynebau cobl fod yn her.



# Cyrraedd yr Amgueddfa

Croeswch y ffordd yn ofalus!

Trowch i'r chwith a defnyddio'r ramp.
Arwynebau: ramp metel, cerrig gwastad.

Mae'r ffordd yn aml yn brysur a swnllyd.

Mae'r llwybr yn addas i gadeiriau olwyn, ond cymerwch ofal ar y pafinau cul a'r slabiau carreg.



# Cyrraedd yr Amgueddfa

- Dyma fynedfa’r Amgueddfa.
- Mae grisiau a ramp yn arwain at y drws blaen.



# Dyma ddrws blaen yr Amgueddfa

- Mae'r drws wedi'i wneud o wydr.
- Bydd staff yn gallu helpu os oes angen help i agor y drws.



# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

- Bydd staff yr Amgueddfa yn eich croesawu chi wrth y dderbynfa.

- Mae rhai staff yn gwisgo dillad gyda logo'r Amgueddfa.

- Bydd rhai staff yn gwisgo gwisg Rufeinig. Efallai y byddan nhw'n gwisgo helmed ac yn cario arfau ffug. Mae nhw'n gyfeillgar, ac yn barod i'ch helpu chi i ddysgu am y Rhufeiniaid.





# Oriel yr Amgueddfa

- Ystafell fawr yw'r Oriel, yn llawn casys gwydr yn dal llawer o wrthrychau wnaeth y Rhufeiniaid eu gadael ar ôl yng Nghaerllion. Mae teils ar y llawr.
- Mae modelau maint llawn o Rufeiniaid yma hefyd.



# Oriel yr Amgueddfa

Pan fydd llawer o bobl yn yr Oriel, mae'n gallu bod yn swnllyd ac yn llawn atseiniau.

Mae llawer o oleuadau yn yr oriel, sy'n gallu adlewyrchu o'r casys gwydr.

Mae ramp er mwyn i gadeiriau olwyn gyrraedd lefelau uchaf ac isaf yr Oriel.



# Oriel yr Amgueddfa

Mae cannoedd o wrthrychau diddorol i'w gweld.

Gall hyn fod yn dipyn i'w brosesu i rai pobl.

Mae canolbwyntio ar un casyn ar y tro yn help.



# Oriel yr Amgueddfa

- Byddwch chi'n gweld arch Rufeinig a cherrig beddi yn yr oriel.

360°

**Gallwch chi grwydro'r Oriel ar-lein cyn ymweld hefyd.**



# Yr Ardd Rufeinig

Gofod awyr agored tawel tu allan i'r Oriel yw'r Ardd Rufeinig.

Mae llawer o berlysiau i'w cyffwrdd a'u harogli.

360°

Gallwch chi grwydro'r Ardd ar-lein cyn ymweld hefyd.



# Y Siop

- Gallwch chi brynu anrhegion bach yn y Siop.



# Ystafell y Barics

Ailgread o stafell fyw Llengfilwr Rhufeinig yw Ystafell y Barics.

Mae’r golau yn dywyll yn yr ystafell ac mae arogl gwahanol ynddi.

Gall defnyddwyr cadair olwyn ddefnyddio mynedfa arall, neu ofyn i staff yr Amgueddfa osod ramp dros dro.

Mae mynedfa arall i Ystafell y Barics gyda phedair gris.



# Gwisgo Arfwisg

Gall disgyblion wisgo arfwisg bach gyda help oedolyn. Mae'n drwm, ac yn oer i'w gyffwrdd.

Mae'r arfwisg yn gwneud sŵn wrth i chi ei wisgo. Mae'r arfwisg yn fetel gyda strapiau lledr.

Gallwch chi chwarae sain yn yr ystafell hon.

360°

Gallwch chi grwydro Ystafell y Barics ar-lein cyn ymweld hefyd.



# Gweithdy

Gallwch chi archebu lle mewn gweithdy dan arweiniad aelod staff mewn gwisg Rufeinig.

Efallai bydd cyfle i chi wisgo gwisg neu arfwisg Rufeinig, dal arfau pren a chwarae rôl.

Mae disgyblion fel arfer yn mwynhau'r elfen hon, ond rhowch wybod os fyddai addasiadau yn helpu. Rydyn ni'n cynnig gwahanol weithdai drwy'r flwyddyn, ac amserlen ar ein gwefan.



# Gweithdy

Gallwch chi gyrraedd y Gweithdy o'r Ardd Rufeinig. Mae lluniau lliwgar o dduwiau Rhufeinig
ac anifeiliaid ar y waliau.





# Sain a fideo

Mae sgriniau yn yr Amgueddfa sy’n chwarae fideos. Gallwn ni ddiffodd y sgriniau os oes angen.

Mae’r fideos i gyd yn dawel.

Mae Dolenni Sain symudol ar gael wrth y Dderbynfa.



# Toiledau

Mae toiledau ar wahân i ddisgyblion yn yr Amgueddfa.

Mae un toiled anabl, a thoiledau ar wahân i fechgyn a merched.

Mae drysau’r toiledau, a’r sychwyr dwylo yn swnllyd.



# Bwyta

Mae dwy ardal fwyta dan do yn yr Amgueddfa. Mae un yn llawn golau naturiol, a’r llall yn dywyllach gyda ffenestri llai.

Pan mae’n braf, gallwch chi fwyta picnic ar y porfa yn yr Ardd. Mae ychydig o feinciau, ac un yn addas i gadair olwyn.

Mae’r ardd ar agor i ymwelwyr eraill hefyd.





# Ardaloedd tawel

Mae sawl ardal dawel yn yr Ardd Rufeinig.

Gall yr ardaloedd bwyta gael eu defnyddio fel ardaloedd tawel hefyd.



# Archebu

## Cofiwch nodi anghenion eich grŵp wrth archebu.

**Oes angen i ni:**

**Addasu cynnwys, neu dull trosglwyddo’r sesiwn: cyflymder, iaith, cynnwys, gweithgareddau, gwisgoedd, pethau i osgoi/annog.**

**Creu amserlen fwy hyblyg.**

**Sicrhau taw dim ond chi fydd yn defnyddio ardaloedd penodol.**

**Pylu goleuadau neu dawelu sain lle gallwn ni.**



# Ymweliadau Rhithiol

Fyddai crwydro'r Amgueddfa ar-lein cyn ymweld yn help?

Gall dosbarthiadau gysylltu ag Amgueddfa Cymru i fwynhau gweithdy rhyngweithiol ar-lein am ddim.

Mae'r gweithdy wedi'i gynllunio ar gyfer disgyblion 7-11 oed, ac yn cyffwrdd ar elfennau Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg y cwricwlwm.



# Cyrraedd y Baddonau

Dilynwch y pafin am y pentref.

Mae’r pafinau’n gul a’r ffyrdd yn aml yn brysur – cymerwch ofal.

Arwynebau: Pafinau tarmac.

Mae’r llwybr yn addas i gadeiriau olwyn.



# Cyrraedd y Baddonau

Dilynwch y pafin am y pentref. Mae'r pafinau'n gul a'r ffyrdd yn aml yn brysur a swnllyd. Dilynwch Lwybr B a gwneud yn siŵr fod rhywun yn goruchwylio pob grŵp.

Arwynebau: Pafinau slabiau carreg cul, croesfannau, cobls, ceir wedi parcio.

Llwybr A sydd orau i gadeiriau olwyn, ond gall croesi'r ffordd ac arwynebau cobl fod yn her.



# Cyrraedd y Baddonau

Croeswch y ffordd yn ofalus!

Trowch i'r dde i fynd ymlaen i'r Baddonau.

Mae'r ffordd yn aml yn brysur a swnllyd.

Mae'r llwybr yn addas i gadeiriau olwyn, ond cymerwch ofal ar y pafinau cul a'r slabiau carreg.



# Cyrraedd y Baddonau

Dilynwch y pafin cul drwy'r pentref. Cadwch ar y pafin.

Mae'r ffordd yn aml yn brysur a swnllyd.

Mae'r llwybr yn addas i gadeiriau olwyn, ond cymerwch ofal ar y pafinau cul a'r slabiau carreg.



# Cyrraedd y Baddonau

Trowch i'r chwith i mewn i'r maes parcio i gyrraedd y Baddonau.

Cymerwch ofal yn y maes parcio, a gwylio am geir a cherbydau eraill.



# Cyrraedd y Baddonau

Mae maes parcio bach yn y Baddonau, dan ofal cwmni preifat. Nid yw'r maes parcio'n addas i fysiau, ond gall rhai ymwelwyr gael eu gollwng wrth y fynedfa
os oes angen.

Mae mynedfa'r Baddonau ym mhen pella'r maes parcio.



# Cyrraedd y Baddonau

Dyma fynedfa'r Baddonau Rhufeinig.

Agorwch y drws i fynd i mewn.

Bydd staff yn gallu helpu os ydych chi angen help i agor y drws.



# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

Dyma fynedfa'r Baddonau Rhufeinig.

Mae'r bobol mewn dillad swyddogol yma i'ch helpu chi.

Mae cadeiriau olwyn yn gallu defnyddio'r baddonau.

Does dim toiledau yn y baddonau.



# Y Baddonau

Roedd Llengfilwyr Rhufeinig yn dod yma i nofio, ymlacio, ac ymolchi.

Mae'r goleuadau'n isel, a delweddau yn cael eu taflunio er mwyn ail-greu'r awyrgylch.

Gallwch chi glywed sŵn sblasio a cherddoriaeth.





# Arwynebau

Mae yna lwybr pren lle gallwch chi edrych i lawr ar y baddonau.

Agorwch y gât i gamu ar y bont bren. Mae croeso i chi ofyn am help.

Mae'r llwybr yn hollol ddiogel. Mae wedi'i wneud o estyll pren gyda bylchau rhyngddyn nhw.





# Fideo a sain

Mae fideo yn esbonio hanes y Baddondai Rhufeinig.

Gallwch chi eistedd ar y meinciau a gwylio'r fideo.

Mae'r fideo i gyd yn dawel. Mae Dolenni Sain ar gael yn y Dderbynfa.




# Pethau i'w cyffwrdd

Gallwch chi gyffwrdd a gwisgo eitemau Rhufeinig replica.

Byddwch yn ofalus a gwrando ar yr oedolyn sydd gyda chi.





# Pyllau poeth ac oer

Yn yr ardal hon mae tystiolaeth o system gynhesu tanddaearol, a phyllau bach o ddŵr poeth ac oer.

Mae goleuadau lliw yn goleuo ardaloedd gwahanol ar wahanol adegau.

Peidiwch rhedeg na dringo – arhoswch gyda'r oedolyn sydd gyda chi.




# Pethau i'w cyffwrdd

Gallwch chi bwyso botymau a gwrando.

Gallwch chi gyffwrdd y waliau carreg.

Edrychwch ar y byrddau gwybodaeth i gyd.





# Sgriniau cyffwrdd

Edrychwch ar y sgriniau.

Cyffyrddwch y sgrîn i ddechrau fideo.



# Y Siop

Gallwch chi brynu anrhegion bach yn y siop.

